# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-07-11**

## CA565: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cychwyn Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed ac Addasiadau) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddfau'r Cynulliad yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("y Ddeddf") ac yn gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed ac addasiadau mewn perthynas â chychwyn y Rhan honno. Mae hefyd yn diddymu deddfwriaeth benodol a fydd yn ddiangen pan ddaw'r Gorchymyn i rym.

### Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Rhagoriaethau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1.Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Deddfau'r Cynulliad o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Rhan 4 ac Atodlen 7) a ddaw i rym o 5 Mai 2011. Mae hyn yn golygu y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu ystyried Biliau o'r dechrau.

2.Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau dilynol i sicrhau y gall Mesurau sy'n aros am Gymeradwyaeth Frenhinol o dan Ran 3 o'r Ddeddf barhau i gael Cymeradwyaeth Frenhinol er gwaethaf y ffaith y bydd Rhan 3 wedi rhoi'r gorau i fod yn weithredol ers 5 Mai yn unol ag adran 106(1) o'r Ddeddf.

3.Mae paragraff 4.7 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio pam nad yw'r Gorchymyn yn diwygio rhan 67 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 i'w galluogi i gymhwyso i Ddeddfau'r Cynulliad. O gofio bodolaeth pwer sydd ar gael eisoes o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'n eglur pam na chafodd adran 67 o Ddeddf 2008 ei dirymu.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Mawrth 2011**